Cyfres Llanrhr | MAI 1927 | Cyf. 27. Rhif 5.

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y. Golygydd. | Y. Parch T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

NODION Y GOLYGYDD.
MEDDWL AC YSGRIFENNU.
AR GRWYDR.
YSBRYDEGAETH.
YR YSMOTYN DU.
PWYLLGOR Y PASC.
PRIODAS. MARWGOFION.
NODION YR EGLWYSI.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi

Argraffwyd gan J. D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

Y Geiriadur Beiblaidd.

Gellir cael yr uchod yn awr wedi ei rwymo yn gyflawn mewn Dwy Gyfrol hardd. . . .

Dwy Gyfrol—Canvas Cloth, Gilt Lettered, £2/2/- y Set.
Dwy Gyfrol—Quarter Levant Morocco, Gilt Lettered, £2/10/- y Set.

I'w cael o Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

ARGRAFFWAITH.

Anfonwch eich archebion am ARGRAFFU o bob math i SWYDDFA'R "YMOFYNNYDD," LLANDYSSUL. Gwaith glan, destlus a chywir gyda'r dyfeisiadau peiriannol diweddaraf, ac am brisiau rhesymol. Sylw personol i bob ymholiad.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd.

- - Cylchgrawn Misol - -

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

CYFRES LLANBEDR. MAI, 1927. CYF. XXVII. RHIF 5.

Nodion y Golygydd.

Yr Athro L. P. Jacks

YCHYDIG ddyddiau ond odid yn ol cyhoeddwyd y bumed cyfrol o "Fraslun o Gristionogaeth : Hanes ein gwareiddiad," a'i thestun yw "Cristionogaeth ddoe a heddiw," ac mewn Rhagair byw teifl y Prifathro Jacks gipdrem ar y "Byd ; Heddiw ac Yfory," a'r cwestiwn a'i blina yw "Beth mewn gwirionedd a gred y cenhedloedd Cristionogol heddiw ? "

Rhof sylwedd yr ateb fel y'i rhoddwyd imi gan ddilynwr goleuedig Buddha. "O'ch barnu wrth eich gweithredoedd," meddai, "ac wrth y ffordd yr ych yn byw yn eich dinasoedd mawr, yr ych chwi, Gristionogion, yn credu mewn arian. Nid mewn arian yn gyfangwbl y credwch, wrth gwrs, ond nid oes dim arall y credwch ynddo yn llawn mor gadarn. Duw Iesu yw eich Duw dydd Sul ; ond ar ddyddiau'r wythnos addolwch famon. Edrychwch ar y bydysawd fel yn cynnwys nifer dirif o ddoleri neu bunnoedd (*potential*) a'ch gwaith yw troi'r doleri neu'r punnoedd hyn yn rhai *real*. Ni chredwch mewn gwirionedd fod dim arall yn werth y drafferth. Rhyw drefniant mawr yw eich cenhedloedd mawr nid i wasanaethu Duw ond er gweithio neu exploitio'r greadigaeth, a chan na fedrwch beidio mynd o ffordd eich gilydd dysgwch gashau eich gilydd a mynd i ryfel."

Mewn ateb i'r cyhuddiad myn y Prifathro "Os byth yr adennill Cristionogaeth y nerth oedd iddo'n y ganrif gyntaf, fe hurddia'i hun yn erbyn y gred mewn arian gydag angerdd tebig i eiddo Paul pan ymosododd ar addoliad (*cults*) paganaidd ei ddydd. Bydd yn ornest ofnadwy, ac fe eilw'n gywir fel yn y dyddiau gynt am wyr a benywod arwrol i gymryd eu bywyd yn eu dwylo a pheidio gofalu am a ddigwydd iddynt hwy eu hunain. * * Dynion a benywod

wedi gweld fel y gwelodd yntau dan amgylchiadau gwahanol fyddant, nad y byd hwn o wneuthur arian yn yr hwn yr ym dros ein pennau yw'r byd *real* ond rhyw fyd hanner felly ; fod dynion yn eu natur wir yn ddinasyddion o wladwriaeth eangach o ba un nid yw y genedl fwyaf yn ddim amgen nag arwyddlun ; a bod ein dinasyddiaeth ni o'r nefoedd ac na chyflawnir yn gywir un ddinasyddiaeth ddaearol nes tynnu ei phrif egwyddorion o Ddinas Dragwyddol Duw lle nid yw enwaediad ddim na dienwaediad, barbariad na Groegwr, caeth na rhydd."

* * *

O gofio am alw Iesu yn "Feddyg Da," a gwybod am gydymaith Paul—y physygwr annwyl, gellid tybio fod i'r meddyg ei le ei hun yn yr ysgrythur, ac ni cheir gwell cyfle gan nebun na'r meddyg i feithrin y rhinweddau Cristionogol a'u dangos yn ei fywyd.

Sant o Feddyg.

Ar y 5 o Ebrill, 1827, y ganwyd Arglwydd Lister, yn Essex, ac yn rhamant ei fywyd gwelir ei ymroddiad i'w waith. Cyn ei amser ef, yr oedd y mwyafrif mawr a gai driniaeth llawfeddyg yn marw wedi'u gwenwyno ond dyma apostol a Sant o Feddyg yn dwyn gobaith newydd i ddyn a chenid y gobaith hwn gan W. G. Henley :—

> "There is a ward in Hospital ; you see
> The field where Science battles with Disease
> And Hope—Sweet Hope—succumbs
> To death alone."

Cyn amser Lister yr oedd un o bob dau yn marw wedi triniaeth llaw feddyg, ond ymhen ugain mlynedd o fanteisio ar ei ddarganfyddiad nid oedd y cyfartaledd ond tri neu bedwar y cant a dengys ei eiriau wrth dderbyn rhyddid Edinburgh ei galon fawr,—"Ni ystyriaf bob anrhydedd bydol yn ddim o'u cymharu a'r gobaith fy mod wedi bod yn foddion i leihau i ryw fesur drueni'r byd."

* * *

Y Cyrddau Chwarter.

Oherwydd i amgylchiadau fy nghadw o'r Cyrddau Chwarter, nid oes imi ond cymryd adroddiad y pwyllgor a thraethu barn arno. Rhoir gair da gan bawb i'r Llywydd yn y gadair a chredaf i'r Pwyllgor amcanu'n dda. Anelir yn uchel ond nid yn rhy uchel wrth apelio am *dair mil o bunnau* er ffurfio cronfa i gynorthwyo ymgeiswyr ieuainc am y weinidogaeth. Gobeithio y llwyddir er fod fy mhrofiad personol i fy hun wedi gadael cam flas o'i ol. Y mae angen gwneuthur

rhywbeth a hynny heb goll amser onid ydym am weld ein pulpudau'n wag a'r eglwysi'n dioddef.

Da hwyrach oedd cael yr adroddiad ffafriol am y Llyfr Emynau Newydd ond a dywedyd y gwir yn onest ni'm boddlonir i mwy ag adroddiadau ffafriol neu arall. Rhaid i ni gael y Llyfr a chredaf fod yr eglwysi'n barod i ddywedyd Amen wresog i hynyna. (*Nid yw ond teg dywedyd i broflenni'r Llyfr Emynau ddod i'm llaw wedi ysgrifennu'r uchod. Y mae'r argoelion felly'n gwella.*)

Ni welaf sôn am yr Eglwysi gwan nac un cynllun newydd ag eithrio Sul i Rydyparc, a chollwyd cyfle i apwyntio Arolygydd Cenhadol ar yr Eglwysi bychain a di-fugail hyn a thrwy hynny ddwyn un a gynhygiai'i hun o dan ofynion y Pwyllgor Cynghorol (*Advisory*). Ni wn i na enwau aelodau'r pwyllgor hwn na phwy sy'n eu hapwyntio. Nid wyf am wybod mwy oherwydd methais gael yr enwau a minnau'n Llywydd y Gymdeithas.

Disgwyliwn hefyd weled awgrym fod ymddiriedolwyr Newydd Cwmwrdu wedi'u apwyntio ac yn gwneuthur rhywbeth er adgyweirio'r hen gapel bach a threfnu gwasanaethau ond yn ofer. Sicr ni oddefir hyn yn hwy a chredaf mai goreu po gyntaf i symud er gweld beth a ddaw o'r cyfan. Hwyrach y dychwelaf eto at Adroddiad y Pwyllgor er i'r Eglwysi ddihuno ac ystyried rhai o'r awgrymiadau erbyn y Cyrddau Blynyddol.

Siar Lefi.

A'R lleill uwchben eu digon,
A thiroedd i'w mwynhau ;
Mae rhandir Lefi'n ddigon prin,
Dim ond rhyw faes neu ddau.

Ond nid yw Duw'n anghyfiawn,
Mae Lefi yn y plan ;
Ei waith yw gwasanaethu Duw,
Yr Arglwydd yw ei ran.

Caiff eraill fynd i'r farchnad,
Caiff eraill fedi'r ŷd ;
Nid aur a phres ac ydlan lawn
Yw popeth yn y byd.

NANTLAIS.

Meddwl ac Ysgrifennu.

YMAE rhai pobl yn medru meddwl a chyfansoddi pethau gwych heb ysgrifennu gair ar bapur. Edrydd hanes am feddylwyr mawr a gwreiddiol, ac eto heb adael llinell mewn ysgrif ar eu hol. Gwnaed y gwaith hwnnw gan rywrai fu'n gwrando arnynt, ac yn awyddus i fytholi eu coffadwriaeth. Gallu gwerthfawr ydyw hwn ; y mae yn gwneud ei berchen yn annibynnol ar gyfryngau ac allanolion. Ai "dawn natur" ydyw, fel y dywedir am awen bardd ? Yr oedd Wordsworth yn abl i gyfansoddi cannoedd o linellau barddonol tra cerddai ol a blaen ar gyffiniau Grasmere, a'u cludo yn daclus yn ei gof nes y dychwelai adref i'w hysgrifennu mewn llyfr. Gwyddom am rai pregethwyr yn cyfansoddi yn hollol yn eu meddwl, ac yn ysgrifennu y bregeth ar ol ei thraddodi i gynulleidfa, ac nid cyn hynny. Yr un modd gyda rhai areithwyr enwog ; dim ond ycyhydig eiriau ar bapur fydd ganddynt, ond gallant draethu am awr neu ddwy gyda grym a thanbeidrwydd. Nid oes ball am eiriau priodol, a brawddegau clir a soniarus. Clywsom ddywedyd fod yr areithiau hynny yn well pan wrandewid hwynt nag i'w darllen yn y newyddiaduron yr wythnos ddilynol. Ond hwy ydyw meistriaid y gynulleidfa, ac arwyr y llwyfan cyhoeddus. Y maent yn gallu meddwl ar eu traed, a derbyn pethau fydd yn dod ar y pryd, heb unrhyw betruster nac anhawster.

* * *

Gyda dosbarth arall, y mae yr hanes yn wahanol. Ni allant hwy siarad yn gyhoeddus ar gynhyrfiad y foment. Rhaid iddynt baratoi yn fanwl ymlaen llaw. Ac i'r dosbarth hwn, y mae ysgrifennu yn anhebgorol. Rhaid iddynt gael hamdden i drefnu eu meddyliau, ac i linellu y llwybr o'i ddechreu i'w ddiwedd. Ac wedi gwneud hynny, rhaid iddynt fynd drwy orchwyl arall, nid amgen sicrhau y defnyddiau yn eu trefn a'u manylion yn y cof. Mewn cyfrol o bregethau a ymddangosodd amryw flynyddoedd yn ol, sylwai'r awdur, yn ei ragymadrodd i'r llyfr, fod rhai brodyr yn cwyno nad oeddynt yn medru *cofio* eu pregethau ar ol ei traddodi. Ond ei anhawster ef ydoedd eu *hanghofio*. Wedi eu hysgrifennu unwaith, meddai, arhosant fel y Deng Air deddf ar lechau ei gof. Dawn anghyffredin, fel y tybiwn, oedd honno. Ychydig sydd yn ei meddu, a dichon mai bendith ydyw hynny, yn enwedig iddynt hwy eu hunain ! Y mae rhai ohonom—wyr cyffredin ddigon—yn diolch yn ddistaw ein bod wedi colli golwg ar lawer peth echrydus o salw, yn nhir ebargofiant llwyr.

* * *

Ond nid am ysgrifennu i bwrpas y llwyfan neu'r pulpud yr oeddem yn bwriadu sôn. Yn hytrach i'r gwrthwyneb. Yr hyn a ysgrifennir ar gyfer y wasg mewn newyddiaduron a chylchgronau. Rhaid meddwl cryn lawer i fedru gwneud y gwaith hwnnw yn llwyddiannus. Tybia rhai pobl ehud mai gorchwyl hawdd a rhwydd ydyw. Ond i'r cyfarwydd y mae iddo ystyr arall. Tybiai Carlyle mai penyd-wasanaeth meddyliol oedd gwaith y newyddiadurwr; gorfod darpar "copi" bob dydd, a phob wythnos drwy'r flwyddyn. Ond y mae'r gwŷr sydd yn gwneud hynny yn dysgu wrth ymarfer. Gall y sawl sydd yn "y tresi" gyflawni y gwaith yn gynt—nid yn rhwyddach a ddywedwn—na'r dyn fo yn ceisio llunio erthyglau yn achlysurol. Nid anfantais ydyw gorfod harneisio'r meddwl wrth amser penodol. Dichon y dywedir na ellir "archebu" ysbrydoliaeth, a bod yn rhaid disgwyl ar lan y llyn am gynhyrfiad y dyfroedd. Ond y mae ambell un yn disgwyl ar hyd y blynyddau, ac yn gwneud dim. Y mae gan y dyn ei hun gryn fesur o waith i beri y "cynhyrfiad" y disgwylir am dano. "Deuparth gwaith ei ddechreu." Y mae ysgrifennu'r brawddegau cyntaf mewn erthygl, yn fynych, yn fwy anodd nag ysgrifennu dalennau cyfain wedi cael gafael ym mhen y llinyn. Cryn orchwyl, fel yr ydym wedi sylwi, ydyw *cychwyn* y modur; ond wedi cael y trydan i weithredu, y mae yn ymdaith rhagddo yn esmwyth a llyfn. Felly gydag ysgrifennu. Rhaid cael y meddwl i'r cywair priodol. Ond mor wir a hynny, y mae ysgrifennu yn gynorthwy i feddwl. Y mae rhyw ddrws newydd yn agor wrth fyned ymlaen gyda'r gwaith. Ni allwn esbonio'r peth, ond dyna'r ffaith. Yr ydym wedi cyfeirio at yr areithiwr ar y llwyfan. Y mae presenoldeb tyrfa astud yn ysbrydioli ei enaid, ac yn rhoddi edyn i'w ymadroddion. Ond y mae ysbrydoliaeth y llenor yn dod ar hyd ffordd arall. Wrth ysgrifennu yn y distawrwydd y daw pethau yn hwylus iddo ef. Siaradwr truenus, meddir, oedd Oliver Goldsmith, ond gydag ysgrifbin yn ei law, llifai hywadledd i flaen ei fysedd. "*Who wrote like an angel,*" ebai un o'i frodyr llenyddol am dano.

* * *

Ac y mae i Goldsmith ei olynwyr, ar raddfa lai, hyd y dydd hwn. Gyda'r gwaith o ysgrifennu y gallant hwy roddi mynegiant addas i'w meddyliau. Ni allant danio tyrfa ar y llwyfan. Ffera eu geiriau ar eu gwefusau pan orfodir hwy i annerch cynulleidfa. Ond wedi cau arnynt mewn ystafell, llifa eu dawn yn naturiol drwy gyfrwng yr ysgrifell a'r botel inc. Ar y cledrau ysgafn hyn y rhed cerbyd eu myfyrdodau. Dyna hanes rhai o lenorion pennaf y byd Seisnig. Bodau anweledig ydynt i'r lliaws, yn llechu yn yr encilion y tu ol i'w cynhyrchion yn y wasg. Y mae hanes Cymru

yn wahanol. Y nwydd dewisol yn ein plith ni ydyw cyhoeddusrwydd. Ychydig sydd yn medru gwerthfawrogi gwaith dyn os na fydd efe yn "rhywun mawr" mewn byd ac eglwys. Ond y mae'r brodyr distaw sydd yn darpar defnyddiau ar gyfer darllenwyr ein newyddiaduron wythnosol, a'n cyhoeddiadau llenyddol, yn cyflawni gwaith sydd yn trethu adnoddau meddwl, a nerth ymenydd, mor wirioneddol a'r gwŷr yr hysbysebir eu henwau ar y parwydydd o flaen eisteddfod neu sasiwn.

* * *

Dichon na chydnabyddir hyn gan addolwyr llais ac ymadrodd, ac nid ydyw hynny o unrhyw bwys. Y mae'r llenor didwyll yn eithaf bodlon i fyw a bod yn nhir neilltuaeth. Dyna ei randir ef. Ac os clyw efe ryw angel yn sibrwd wrtho—"ysgrifenna," y mae yn gwbl ddedwydd. Caiff yntau ei wobr yn y distawrwydd. Nid oes lleisiau o'i amgylch yn rhoddi "uchel gymeradwyaeth," ac nid oes yno guro traed na dwylaw. Ond y mae'r gweledigaethau yn ymagor o'i flaen. Gallai yntau, ambell dro, fenthyca geiriau'r Salmydd—"Tra yr oeddwn yn myfyrio, ennynodd tan : fy nhafod sydd bin ysgrifennydd buan." Yr wyf yn atgofio yr hyn a ddywedodd cysodydd wrthyf am lawysgrif un o lenorion y dyddiau fu. "Mae y rhan gyntaf o'i ysgrifau," meddai, "yn hollol eglur, a hawdd eu deall ; ond yn rhyfedd, y mae'n ysgrifennu yn salach wrth fynd ymlaen, a chyn y diwedd prin y gallaf ei ddeall o gwbl." Ond yr oedd yr eglurhad ar y trawsgyweiriad yn hollol syml. Dechreuai yr awdur yn araf a phwyllog. Nid oedd y trydan wedi ymaflyd ynddo. Ond, yn raddol, gwresogai yn ei waith. Fflachiai meddyliau fel mellt o'i amgylch, ac yr oedd yr ysgrifbin yn methu cyflawni ei orchwyl yn ddyladwy. Rhedai y llythrennau ar garlam, ac yr oedd yr atalnodau wedi eu gadael ym mhell ar ol! Nid diffyg medr oedd y rheswm am yr olwg anrhefnus oedd ar y "copi" ond yr *high-pressure* ar feddwl yr awdur. Nid ydym yn ei gyfrif yn "esiampl" i'w ddilyn pan ysgrifennir i'r wasg, ond gwr eithriadol oedd efe, ac y mae yn rhaid cymryd y peth fel y mae. Dweyd yr oeddem fod "tân" yn anghenraid i gynhyrchu ysgrif fel popeth arall gwerth ei wneud. Ond rhaid i'r llenor fedru cynneu ei dân ei hun. Ac wedi ei gynneu, rhaid iddo ddarpar defnydd tanwydd newydd i gadw'r fflam i losgi drwy gydol y blynyddau. Arhosed y fflam ar yr allor, ac na ddiffodded.

ANTHROPOS.

Ar Grwydr.

(PARHAD).

WEDI cyrraedd Geneva ar ol taith ddiddorol a chael ymgom bleserus yng Nghymraeg dyffryn Teifi ymwahanasom am ychydig amser i'n gwahanol westai. Nid oedd yr ardal yn newydd i mi, ac er nad oeddwn wedi anfon am lety (oherwydd nid yw hynny yn unol ag arfer crwydryn) gwyddwn y disgynnai fy mhen ar glustog esmwyth a'm haelodau ar wely cynnes. Felly y bu, euthum i'r gwesty arferol ac er nad oedd lle yn y gwesty darparwyd un o ystafelloedd y teulu ar fy nghyfer.

Wedi ychydig hamdden rhaid oedd meddwl am fyn'd i'r cyngrair. Nid oedd cael mynediad yn hawdd oherwydd fod minteioedd mwy nag arfer wedi tyrru i Geneva eleni, am fod yna lawer o betruster ynglyn a derbyn yr Almaen. Dyna oedd gobaith pob carwr hedd ac yr oedd yna lawer o baratoadau wedi'u gwneuthur. Yr oedd Sasiwn wedi ei chynnal ym mis Mawrth er trin y cwestiwn o dderbyn yr Almaen fel aelod o'r cyngrair ond ofer fu ac fe'i gohiriwyd i Sasiwn Medi. Wele brawf ar y Cyngrair, ac oni chaiff yr Almaen ei derbyn gellir ysgrifennu "Ichabod" dros y mudiad.

Roedd yr awyr yn drydanol yn Geneva a thynged yr holl fudiad er sicrhau heddwch y byd yn y glorian. Pa galon a fagwyd ar ddyheadau swynol Iolo Morgannwg na churai'n gyflymach yn yr argyfwng. Tua nos Sadwrn daeth gwawr o obaith. Safodd Arglwydd Sissyllt yn dyn wrth ei egwyddorion, a dyfeisiodd ei feddwl eglur ffordd i gywiro un o ddiffygion mawr y cyngrair a roddai hawl i un genedl rwystro'r cyfan. Ffromodd Hispaen, ac ymneullduoedd. Gresyn colli un, ond onid oedd ragor na dau ddewis, yn wyneb yr holl amgylchiadau rhaid dywedyd fod derbyn yr Almaen yn bwysicach hyd yn oed na cholli Hispaen i heddwch y byd.

Wedi cryn dipyn o drafferth a helbul cafwyd tocyn i fyned i mewn i wrando ar ymdrafod y sasiwn ar ddydd Llun a Mawrth. Nos Sadwrn ar lan llyn Geneva, roedd awel Medi'n fwyn, a minnau yn eistedd o dan y coed yn gwrando ar fiwsig seindorf crythau. Yr oedd llenni'r nos wedi disgyn, "a'r lloer yn ariannu'r lli," a'r nen yn un orymdaith urddasol o ser. Yfory a thrennydd cwestiwn mawr y byd gwareiddiedig fydd "a gyfyd ei 'seren ef'?" fel hirell codi o "Haul Cyfiawnder a iechyd yn ei esgyll."

Fore Sul yn Geneva, awd i addoli yn Eglwys Sant Pedr, lle bu Calfin gynt yn taranu nes arswydo Ewrob. Cofiwn am ddal Servetus, a'i arwain i garchar ac at yr ystanc am ei ddaliadau. Y mae'r

byd wedi newid ac wele finnau yng nghwmni gweinidog Calfinaidd Cymreig yn gwrando yn astud a'r bregeth yn iaith Ffrainc gan Archesgob Soderbhom o Stockholm heb ofni am fy mywyd. Yr oedd yr eglwys fawr yn orlawn a'r gynulleidfa yn awyddus i wrando ar bob gair, a'r cyfan yn apel gref am ysbryd heddwch i feddiannu calonnau pawb drwy'r byd.

Yn y prynhawn crwydrais wrth fy hun ar hyd lannau Arve hyd ardal Champel. Yno ar gornel yr heol yr oedd carreg goffa lwyd i Fichael Servetus wedi ei chodi gan ddisgynyddion Calfin i gofio'r gwron ac i wneud iawn am yr "un ysmotyn Du ar goffadwriaeth Calfin" fel y rhed yr ysgrif ar y garreg. Clywais lawer am Servetus yn yr Ysgol Sul ac o'r Pulpud, ond nid oedd Ysgol Sul Undodaidd yn yr ardal. Dyma fy Ysgol Sul i, ymweled a Maen Coffa Servetus. Dyma wers yn werth dyfod filoedd o filltiroedd i'w dysgu. Gwyn ei fyd y gwr a ddysgo ystyr a gwerth "Rhyddid Cydwybod."

Fore Llun, tua deg o'r gloch, tyrrai'r bobl i gyfeiriad y "Salle De Reformation" lle cynhelid y Sasiwn. Gwelid cynrychiolwyr y gwahanol wledydd yn dyfod, y mwyafrif mewn moduriau. Yr oeddent o bob lliw a llun, croen du, croen felyn a chroen wyn; cynrychiolwyr Asia a'r dwyrain pell, a chrynrychiolwyr gwledydd Ewrob, Affrig a'r Amerig. Roedd M. Briand a Mr. Chamberlain yn amlwg ac edrychai pawb arnynt fel prif benaethiaid y Cyngrair.

Yn yr ystafell yr oedd y cyfan yn barod. Fel y gŵyr pawb sydd wedi ymweled a'r lle nid yw'r Neuadd yn eang nac yn urddasol yr olwg, ond dyma yr unig Neuadd gyfleus ar y pryd, ac nid yw ond llety un-nos fel pe tae hyd nes codir adeilad cymwys i ateb y pwrpas.

O edrych ar y cynrychiolwyr ar y llawr gwelid un lle gwag fel yn barod ar gyfer rhywun. 'Roedd llygaid pawb ar y lle hwn oherwydd cyn pen tridiau gobeithid gweled hen elyn yn gydweithredwr trwy gymryd o'r Almaen y sedd wag. Felly y bu, fel y gwyr pawb erbyn hyn. Yn un pen i'r Neuadd yr oedd yna lwyfan ac yn uwch na'r llwyfan yr oedd yna rywbeth rhwng pulpud a gorsedd. Dyna sedd y llywydd. Dygir adroddiadau o'r gwahanol bwyllgorau yma ynghyd a'r penderfyniadau ac y mae yn rhydd i'r cynrychiolwyr eu derbyn neu eu gwrthod. Siaredir yn Ffrangeg neu'n Saesneg, ac y mae cyfieithwyr yn barod i gyfieithu'r areithiau o'r naill iaith i'r llall ar ol pob siaradwr, os myn rhywun siarad yn ei iaith ei hun rhaid iddo ddarparu cyfieithwyr i gyfieithu a ddywed i'r Ffrangeg a'r Saesneg. Gwnawd hyn gan y Gwyddelod unwaith. Y pwyllgor pwysicaf ar hyn o bryd yw pwyllgor y diarfogi, ac ymhen ychydig gobeithio y cawn gyd-weithrediad hollol ar y mater dyrys ond pwysig hwn.

Drwy alw dychymyg i'n cynorthwyo medrem weled pegynau'r ddaear yn y cynrychiolwyr yma, ac ar lwyddiant neu aflwyddiant y Cyngrair y dibynna hapusrwydd miliynnau o bobl o bob lliw a llun. Yma hefyd mewn ysbryd y ceir pawb o garwyr heddwch. Tu cefn i'r cyfan yn gwenu ar y cyfan dychmygwn weled Iolo Morgannwg a Henri Richard, ac ar y penderfyniad i dderbyn yr Almaen i mewn, hoffwn pe caniateid imi ganu emyn anfarwol Iolo—

Daw dydd Caniadau'n Gwaredigaeth,
Mae'r dydd gwynfydig hwn gerllaw ;
Mae ar adenydd iachawdwriaeth
Yn brysio dros y bryniau draw ;
Cenhadwr hedd yn hardd ei gerdded,
Gan hau bendithion rif y gwlith ;
Neshau mae'r awr y cawn ei glywed,
A'i lafar nefol yn ein plith.

Cyn y derbyniad mawr ar ddydd Gwener, gorfu i'r crwydryn fynd ymhellach, am fod teulu bychan yn dyfod i Felgium ac yr oedd raid i mi eu croesawu. Felly cyn y diwrnod mawr ymedy'r crwydryn a hen ddinas henafol ac annwyl Geneva. Ond nid yw pob peth yn golled ; teithio drwy'r nos i Baris a chysgu hyd y gallwn yn y tren : ychydig oriau ym Mharis i ymweled unwaith eto a'r La Gioconda a'r Venus De Milo a'r Winged Victory yn y Louvre. Oddiyno i fyny drwy ddyffryn y Somme, lle bu gelyniaeth a dig yn gwasgar a gwastraffu miliynnau o fywydau, heibio Albert i fyny hyd Lens. Rhyfedd y cyfnewid. Nid oedd ond ychydig olion o'r cystudd mawr i'w weled. Gwnaethpwyd popeth o'r newydd Saif hen eglwys Albert eto yn falurion ond mewn mannau eraill gwelir eglwysi newyddion, mor brydferth a tharawiadol a'r rhai a adeiladwyd yno yn y canol oesoedd.

Mae yna leoedd sanctaidd eraill, sef y claddfeydd lle gorwedd ein cyd-wladwyr. Tawelwch a Heddwch tragwyddol fo iddynt Yn awr daw yr aradr i newid wyneb y tir. Erbyn hyn yr oedd y cnwd i gyd yn yr ydlan, a llawer maes yn agored i'r lloffwyr, ond gwelwn olion pydewau isel yn y cae gwenith, a fu gynt yn "Shell Holes" erchyll, ond doi natur dyner eto i ail adeiladu y lleoedd anghyfanedd, a throstynt tyfai'r gwenith gwyn. Dyma fendith troi'r cledd yn swch yn wers amlwg o flaen fy llygaid.

"Fe'i cura nes a yn swch
Gywrain ei gwas'naethgarwch,
I aru'r ddaear iraidd,
A thy' o hon wenith a haidd."

Brysied y dydd pan ddaw'r natur ddynol i wenu a gweini yn lle gwgu a gwenwyno a phan "Eisteddant bob un dan ei winwydden a than ei ffigysbren ei hun heb neb i'w dychrynu."

CRWYDRYN.

Ysbrydoliaeth.

DYSG ysbrydoliaeth fod yna gyflenwad naturiol i anghenion ysprydol fel ag i rai corfforol; fod yna gysylltiad rhwng Duw a'r enaid fel ag sydd rhwng goleuni a'r llygad, sain a'r clust, ymborth a'r archwaeth, gwirionedd a'r deall, prydferthwch a'r dychymyg. Pan ganlynwn ni dueddiadau naturiol y corff ac yr ufuddhewn i'w deddfau, ni a gawn gyflenwad naturiol i'w anghenion —iechyd, nerth ac hawddfyd; a phan ufuddhewn i ddeddfau'r meddwl ni a gawn yn yr un modd gyflenwad i'w anghenion ef, ni a gawn ddoethineb, medr ac hawddfyd y meddwl. Felly hefyd pan ganlynwn duedd naturiol arall ac yn cadw'r galluoedd moesol a chrefyddol, ni a enillwn heddwch cydwybod a gorffwys i'r enaid—yr hawddfyd moesol a chrefyddol uchaf. Dysg nad ydyw'r byd yn nes i'n cyrff nag ydyw Duw i'r enaid—"Canys ynddo ef yr ydym yn byw, symud a bod." Fel y mae gennym synhwyrau corfforol yn ymwneud a mater ac yn cyflawni anghenion corfforol—a thrwyddynt yn naturiol yr enillwn yr holl bethau materol angenrheidiol—felly y mae gennym gynheddfau ysbrydol i afaelu yn Nuw a chyflenwi anghenion ysprydol; drwyddynt hwy yr enillwn yr holl bethau ysprydol angenrheidiol. Fel pan fyddom yn talu sylw i ddeddfau'r corff ni a gawn natur o'n tu, felly pan ufuddhewn i ddeddfau'r enaid cawn Dduw o'n tu. Cyfranna ef wybodaeth i bawb a geidw'r amodau; y mae gennym drwy ein gwahanol gynheddfau ddyfodfa union ato Ef, fel y mae gennym ddyfodfa union at natur drwy'r llygad, y clust, neu'r llaw. I ddysgu dyletswydd ni anfonir dyn y tu allan iddo ef ei hun at hen ysgrifau fel pe baent unig reol ffydd ac ymarweddiad. Y mae'r gair yn agos iawn ato, hyd yn oed yn ei galon, a thrwy'r gair hwn y mae efe i brofi pob ysgrif. Ni chyfyngir ysprydoliaeth, mwy na holl bresenoldeb Duw. Ni hysbyddwyd hi gan yr ychydig ysgrifennwyr hynny a hawlir gan Iddewon, Cristionogion a Mohametaniaid. Nid ydyw'r syniad hwn am ysprydoliaeth yn cyfyngu Duw a'i wneuthur yn bleidiol a gwamal.

Dyrchafa ddyn, anrhydedda athrylith grefyddol pa un ai eiddo Moses neu Iesu fo, ac eto y mae'r cwbl yn naturiol, dynol a phrydferth ac yn datguddio posibilrwydd y natur ddynol. Gall dyn gyfeirio ei feddwl i'r byd ysprydol anfeidrol a dwyn yn ol ganddo oleuni a gwirionedd. Y mae yna ffenestri tuag at Dduw yn ogystal ag at y byd. Nid oes alwad am gyfryngwr. Gall dyn deimlo presenoldeb prydferth Duw a chael mynedfa gyfarwydd at yr Holl-Dad a derbyn ysprydoliaeth a gwirionedd yn uniongyrchol oddiwrth ei awdur. Yr un ydyw hanfod ysprydoliaeth ymhob

man, sef gweithrediad y Goruchaf yn yr enaid, y presenoldeb dwyfol yn cyfrannu goleuni, y presenoldeb hwnnw'n mynegi ei hun fel gwirionedd, cyfiawnder, santeiddrwydd a chariad, ac yn tywallt ei hun i'r enaid gan roddi iddo fywyd newydd. Anadliad ydyw o'r Duwdod ac yn amlygu ei hun drwy'r rheswm fel gwirionedd, drwy'r gydwybod fel iawnder, drwy'r serchiadau a'r reddf grefyddol fel ffydd a chariad. Ni chyfyngir yr ysprydoliaeth hon ychwaith i'r byd diwinyddol. A oedd Newton yn llai ysprydoledig na Simon Pedr ?

Os cywir y syniadau hyn dibynna y radd o ysprydoliaeth ar ddau beth, yn gyntaf ar allu naturiol dyn, ar ei ddawn feddyliol, moesol a chrefyddol, neu'r athrylith y cynysgaeddwyd dyn a hi, ac yn ail ar y defnydd a wna o'i ddawn gynhenid. Mewn gair dibynna ar swm ei fodolaeth a swm ei ufudd-dod i'w fodolaeth.

Ac fel y gwahaniaetha dynion yn fawr yn eu doniau naturiol a llawer mwy na hynny yn y defnydd a'r datblygiad o honynt, felly y mae'n rhaid fod amrywiol raddau o ysprydoliaeth a amlygir o'r pechadur isaf i'r sant uchaf. Nid ydyw adnoddau dynion ar eu geni yn gyfartal ac ni fedrant dderbyn ysprydoliaeth i'r un graddau.

Y mae dyn o allu meddyliol urddasol, o serchiadau dyfnion, cyfoethog, hael ar bwys ei ddoniau cynhenid yn gallu mwy nag arall sydd yn llai dawnus. Ond y mae'r hwn a gadwo gyfraith ei enaid yn gyfan ac felly a gyflawno un o amodau mawrion ysprydoliaeth yn derbyn mwy na'r hwn a'i cadwo yn llai manwl. Y mae'n rhaid i'r blaenaf dderbyn yr oll a all ei enaid ei gynnwys yn ei gyflwr neilltuol o'i dw. Felly ar ewyllys dyn ei hunan i fesur helaeth y dibynna gradd ei ysprydoliaeth. Drwy ufudd-dod ffyddlon gall dyn o ddoniau cynhenid isel gyrraedd yn uwch nag un o gynheddfau mwy a esgeulusodd ei dalent. Yr hwn, gan hynny, a fedd fwyaf o ddoethineb, daioni, crefydd—fwyaf o wirionedd yn y ffurf uchaf arno—ydyw'r mwyaf ysprydoledig. Y mae gan yr hwn sydd yn ddidwyll i'w gydwybod, ufudd i'w reddfau crefyddol, ffyddlon i'w reswm nid yn unig nerth ei rinwedd ei hun, ei dduwioldeb ei hun a'i ddoethineb ei hun, ond y mae ganddo hefyd holl nerth anfeidroldeb o'i du, canys yn ei hanfod yr un ydyw daioni, gwirionedd a chariad yn Nuw a dyn.

Amlyga ysprydoliaeth ei hunan mewn amrywiol weddau, yn cael ei nhewid gan wlad, cymeriad, addysg, a theithi yr hwn a'i

derbyn, bron fel y cymer dwfr ffurf y cwpan y llifa iddo ac yr adlewyrcha ei liw ac yr ymgymysga ag amhuredd a gyferfydd yn ei rediad. Yn y fel yna'r ysprydolwyd Minos a Moses i wneuthur deddfau ; Dafydd i dywallt allan ei enaid mewn ceinciau crefyddol dwfn a melys fel nabl angel ; Pindar i glodfori gweithredoedd rhinweddol ar gân uchel arwrol ; Luther, Bohme, Fenelon a Fox i wneud bob un ei waith priodol ei hun a chyffroi calon y byd yn ddwfn, ie'n ddwfn iawn. Ysprydolwyd Dorcas i wneuthur peisiau a gwisgoedd i'r tlodion, a Phaul i bregethu'r efengyl. Fel yr ysgrifennodd Paul ei hun—

> "Y mae amryw ddoniau, eithr yr un Ysbryd.
>
> Ac y mae amryw weinidogaethau eithr yr un Arglwydd.
>
> Ac y mae amryw weithrediadau, ond yr un yw Duw, yr Hwn sydd yn gweithredu pobpeth ym mhawb."

Mewn un, gall yr Ysbryd ymddangos mewn caledwch haearnaidd ymresymiad a dyr drwy dwyllresymiad, rhagfarn ac ysbwriel amser. Mewn arall ceir ef fel fflam serch yn darostwng ac yn meddalu, ac yn esgor ar ffrydlif o ddaioni a serenna fel y rhed.

Nid ydyw ysprydoliaeth yn distrywio rhyddid dyn ; ceidw hwn heb ei lyffetheirio.

Pa le bynnag y cura calon lawn o gariad, lle bynnag y traetha ffydd a rheswm eu horaclau, yno hefyd y mae Duw yn ysprydoli, fel y gwnai gynt yng nghalonnau gweledyddion a phroffwydi. Nid yw Gerizim na Jerusalem, na'r ddaear a fendithiwyd gan Iesu mor sanctaidd a chalon y dyn da, mor llawn o Dduw. Ni neilltuir ysprydoliaeth i'r dysgedig a mawr a doeth ond rhoddir hi i bob plentyn ffyddlon Duw. Yn nistawrwydd dwfn yr enaid, pan fo dyn yn troi'n fewnol at Dduw, gwawria goleuni a thyr cysur a thangnefedd arno. Nid ydyw'r Tad goreu wedi cilio o Sechina y Cysegr Santeiddiolaf ac ni edy i'w blentyn grwydro drwy dywyllwch dudew, yn ddall ac yn amddifad, heb lwybr heb arweinydd, yn ymbalfalu am Dduw ond heb obaith ei gael ond trwy gyfryngdod. Na, fe barha'r enaid i chwilio dyfnion bethau Duw a gwyn eu byd y rhai pur o galon, canys hwy a welant Dduw. Fe arweinia ei ysprydoliaeth Ef hwynt drwy eu holl bererindod.

R. C. J.

Yr Ysmotyn Du.

AT OLYGYDD YR YMOFYNNYDD.

ANNWYL SYR,—

Yn rhifyn Awst 1850 o'r "*Geiniogwerth*"—cylchgrawn misol a gyhoeddid gan Thomas Gee, Dinbych, ceir y llythyr canlynol. Tybed, ai yn y cylchgrawn hwn y gelwir y rhanbarth Undodaidd o Sir Aberteifi yn "ysmotyn du" am y tro cyntaf?

"SIR ABERTEIFI.

SYR,

Er nad yw eich cyhoeddiad ond bychan, ond tra chynnwysfawr, a gwerth ceiniog, gall er hynny wneyd llawer o ddrwg fel llawer o dda, gan fod ei gylchrediad mor helaeth.

Yn eich rhifyn am Mehefin, yn eich sylwadau ar Sir Aberteifi, dywedwch, "Ond yr hyn sydd yn ysmotyn du ar gymeriad crefyddol y Sir, yw rhifedi yr addoldai Sosinaidd, etc." Nid oes yna neb syr yn arddel yr enw; ond gwyddom ei fod yn cael ei roi i blaid o bobl perthynol i Sir Aberteifi a Morganwg, y rhai ydynt, er yr holl sarhad yn credu fod Iesu Grist yn Fab Duw, gogystal a'r penaf o'r brodyr Calfinaidd. Ni ddylech, syr, gamgyhuddo plaid gariadus, heddychol, yn y fath fodd ag yr ydych. Gofynwch, syr, i rai o'ch pregethwyr eich hun, perthynol i'r swydd hyn, pa beth ydynt; ac os dywedant yn gydwybodol eu bod fel y dywedwch, yna byddaf yn ddistaw. Gan nad yw eich cyhoeddiad ond bychan, nid ydyw yn ddoeth i mi gymeryd gormod o le ar destun mor newydd, ragor na dywedyd dros fy hun a thros pob gweinidog a fuais yn dangos eich cyhoeddiad iddynt, fod i chwi roesaw calonnog i anfon un neu ddau o'ch cenadwyr mwyaf cymhwys a detholedig, (os byddant ysgolheigion da, goreu i gyd) i bregethu yn ein mysg, a chant bob caredigrwydd a allwn ni roi yn ddidraul iddynt hwy, a chant wybod wedy'n, pa un a ydym ai peidio 'yn waeth na phaganiaid,' ac yn 'ddeistiaid perffaith.'

O.S.—Bydd Caeronnen, Alltyblacca, Llwynrhydowen, Bwlchyfadfa, Cribin, Ciliau, Penrhiw a Phanteg yn agored i'r cenadwr.

Yr eiddoch, syr, dros fy hun, a thros ereill,

THOMAS GRIFFITHS, Caeronnen, Ger Llanbedr."

Dyma ran o'r erthygl y cyfeirir ati.—

"Mewn perthynas i agwedd crefydd yn y sir hon, nid oes un amheuaeth nad y blaid liosocaf o lawer, yw y Methodistiaid Calfinaidd. Y mae gwrandawyr lliosog yn perthyn i'r Eglwys Sefydledig mewn rhai mannau, lle y mae offeiriaid effro yn gweinidogaethu. Mae gan yr Annibynwyr Eglwysi cryfion yn Neuaddlwyd, Hawen, Horeb, Aberteifi, Talybont, a mannau ereill. Ond yn nhref Aberteifi y Bedyddwyr feallai yw y blaid liosocaf. Mae gan y Wesleyaid hefyd, amryw addoldai, mewn rhai parthau. Ond yr hyn sydd yn ysmotyn du ar gymeriad crefyddol y sir, yw rhifedi yr addoldai Sosinaidd. O afon Aeron hyd afon Teifi, oddigerth gyda glan y môr, y mae yr holl wlad bron yn Sosinaid. Nid oes nemawr o arwyddion ychwaith fod y nifer yn lleihau; a'r hyn sydd yn waeth na'r cwbl i feddwl amdano, nid oes dim ymdrech cyson ac egniol yn cael ei wneuthur tuag at eu hennill. Cesglir symiau mawrion o arian bob blwyddyn, i anfon yr efengyl i wledydd pell; ond nid oes cymaint ag un cenhadwr wedi cysegru ei amser i lafurio yn mysg Sosiniaid Sir Aberteifi; y rhai ydynt yn ddiau, yn ol barn pob dyn sydd yn credu fod Iesu Grist yn Fab Duw, mewn gwaeth cyflwr na'r paganiaid. Eglwysi Presbyteraidd, uniongred, oedd llawer o honynt ar y cyntaf; ond cyn dechreu cyfeiliorni, yr oeddynt wedi myned yn hollol annibynol. Wrth ddywedyd hyn, nid ydys ond adrodd yr hanes, heb un bwriad i honi, na thuedd i gredu, mai eu hannibyniaeth oedd yr achos o'u cyfeiliornad. Yn raddol yr aethant yn Sosiniaid. Dechreuasant gyda rhyw dybiau Morganaidd am allu dyn: ac yna, wedi gwneyd dyn yn alluog i'w achub ei hun, nid oedd eisiau Mab Duw i roddi iawn drosto, na'r Ysbryd Glân i'w aileni. Erbyn hyn, y maent gan mwyaf yn Ddeistiaid perffaith. Oni ddylai crefyddwyr Cymru feddwl am danynt, ac ymdrechu i'w cael o afael yr amryfusedd cadarn y maent wedi myned iddo?"

Yr eiddoch yn gywir,

Hinckley. J. D. Jones.

HEDDWCH.

Pe doi'r byd o'r pedwar ban—yn aelwyd
Heb olion cyflafan,
Ai gofid heibio'n gyfan
A doi gwawr i wlad y gân.

Llandysul. J.T.J.

Pwyllgor y Pasc.

CYNHALIWYD hwn ym Mhantydefaid bore Iau Ebrill 21, o dan lywyddiaeth Mr. D. Tyssul Davies, Aberdar. Yr oedd yno nifer luosog yn bresennol a chafodd materion pwysig eu trin a chredwn mai teimlad pawb oedd mai da i'w cyflwyno cyfarfod y bore i'r Pwyllgor.

Wedi darllen a derbyn cofnodion y Pwyllgor blaenorol ar gynhygiad y Llywydd pasiwyd :

(1) Ein bod yn datgan ein gwerthfawrogiad o fywyd gwasanaethgar y diweddar Brifathro Walter J. Evans, M.A. o Goleg Caerfyrddin ynghyd a'n cydymdeimlad a'i weddw a'i blant.

(2) Ein bod yn llongyfarch yn wresog y Prifathro newydd, Y Parch. J. Park Davies, M.A., B.D., ar ei benodiad fel olynydd i'r uchod ac yn rhoddi croesaw cynes iddo i'n plith fel Eglwysi Cymreig.

(3) Ein bod yn datgan ein cydymdeimlad llwyraf a'r Parch. Lewis Williams yn ei afiechyd ac yn cyflwyno iddo ein dymun iadau goreu am wellhad buan a sicr.

(4) Ein bod yn cydymdeimlo a'r Parch. a Mrs. E. Gwilym Evans ar golli ohonynt eu mab (ac yntau'n feddyg) mor sydyn.

Safle Ariannol YR YMOFYNNYDD.—Wedi llawer o siarad pasiwyd fod y Pwyllgor canlynol i ystyried safle ariannol YR YMOFYNNYDD, ac i weithredu fel y gwelont oreu.—Y Llywydd ; Mri Josiah R. Jones, Y.H. ; D. Martin Jones, Y.H., ; W. S. Jones, M.A. ; Thomas Davies, Capelybryn ; Parchn. T. A. Thomas ; T. Oswald Williams, M.A. a E. O. Jenkins.

Trefnwyd fod gwasanaeth i'w gynnal gan y Gymdeithas yn Rhydyparc yn ystod yr Haf, ac addawodd y Parch. T. Arthur Thomas ofalu am dano. Y treuliau i'w talu o'r arian (£4/10/0) ddaeth i law o G.U.F. a Thramor drwy y diweddar Brifathro Evans.

Parkyvelvet.—Darllenwyd apêl am gynorthwy ariannol i gynnal gwasanaeth ym Mharkyvelvet. Penderfynwyd ei ystyried yn y Pwyllgor blynyddol ac fod yr ysgrifennydd yn y cyfamser i chwilio allan pa gynorthwy ddaw o gyfeiriadau ereill.

Trysorfa'r Myfyrwyr.—Derbyniwyd yn wresog adroddiad yr Is-bwyllgor fu'n ymdrin a'r mater o ffurfio cronfa i gynorthwyo pobl ieuainc a'u hwynebau i'r weinidogaeth. Awgrym yr Is-bwyllgor oedd ffurfio cronfa o £3,000, a defnyddio'r llôg i gynorthwyo fel y byddai galw ac fod dwy flynedd—1927 a 1928 yn cael eu rhoddi i'r gwaith. Ond gan fod safle masnachol y wlad yn bur isel ar hyn o bryd gohiriwyd y cynllun am flwyddyn, hynny yw hyd 1928 a 1929.

Pasiwyd hefyd fod casgliad tebyg i'r un o'r blaen yn cael ei wneud i gyfarfod anghenion y flwyddyn hon. Fod y Parch. E. O. Jenkins i ymweld a chasglu yn Eglwysi Aberteifi ac fod casglu yn Eglwysi Morgannwg i'w adael yn llaw y Parchn. H. H. C. Jones, B.A., a E. R. Dennis. Ynglyn a'r casgliad hwn addawodd Mr. Josiah Jones, Y.H., gyfrannu *un rhan o ddeuddeg* o'r cyfanswm a gesglir. Pasiwyd hefyd fod yr arian sydd yn llaw Mr. Josiah Jones i gael eu defnyddio fel trysorfa gyffredinol y myfyrwyr hyd nes daw'r gronfa i fod.

Pasiwyd ein bod yn rhoddi pob cefnogaeth i'r brawd Mr. Tom Jones, o Lanbedr yr hwn sydd ai fryd ar gymhwyso ei hun i'r weinidogaeth drwy gymeryd y cwrs arbennig o dan gynllun y National Conference. Fod y grant o £5 yn cael ei wneud iddo i bwrcasu llyfrau ac fod yr Ysgrifennydd i geisio cael llyfrau iddo o'r B.F.U.A. a'r "Dr. Williams' Trust."

Y Llyfr Emynau.—Cafwyd adroddiad a ystyrrid yn foddhaol iawn gan y Parch. T. Arthur Thomas ynglyn a'r llyfr, a chafwyd lle i gredu y bydd i'r llyfr gael ei gyhoeddi tua diwedd y flwyddyn hon.

Trefnwyd fod y cyfarfodydd blynyddol i'w cynnal yng Nghribyn.

Darllenwyd llythyr oddiwrth ysgrifennydd y Bwrdd Presbyteraidd yn gofyn i'r Gymdeithas dalu "College Fee" ein myfyrwyr presennol. Pasiwyd fod yr Ysgrifennydd yn gwneud apel i'r Bwrdd am gael peidio talu'r "fee" ond os mai talu fydd rhaid, fod Mr. Josiah Jones i'w thalu.

Priodas.

DYDD Sadwrn, Ebrill 9, ym Mount Elim, Pontardawe, o flaen y Gweinidog a'r Cofrestrydd, ymbriododd Mr. William Davies, Darren, Trebanos a Miss Rosy Hopkins, Rhuddwen Road, Craigcefnparc.

Gwened y Gwanwyn gwynaf,—i'r aelwyd,
Doed yr heulwen fwynaf,
Byd heb wae, byd heb aeaf,
Trwy ei hoes yn gartre Haf.

BANOS.

Marwgofion.

CHWEF. 22, Mary Thomas, gweddw y diweddar David Thomas, Bryndelyn, Talgarreg, yn 77 oed. Claddwyd y Sadwrn dilynol ym mynwent Pisgah. Pregethwyd yn y capel gan y Parch. E. O. Jenkins a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parchn. F. H. Davies (A), Brynrhiwgaled, a George Davies (A), Pisgah. Gadawodd ddau fab, merch, a nifer o ŵyrion i wylo ei cholli. Wyla llawer o gymdogion hefyd canys yr oedd yna rywbeth ynddi a enillai barch, ac hyd yn oed serch ei chydnabod. Yr oedd yn fenyw o feddwl gonest, a medrai fod yn onest yn ei siarad. Medrai fod yn "blaen" heb fod yn arw a phigog. Yr oedd ymgom yn flasus beth ganddi a medrai fod yn ffraeth mewn cwmni; yr oedd rhai o'i hymadroddion yn neillduol o ffraeth. Yr oedd o anian garedig ac ni fynai glwyfo na gwneud drwg i neb; ar y llaw arall siarad yn serchus wnai pawb am "Mary Bryndelyn." Bu'n nychu'n raddol am bedair blynedd a bellach wele hi wedi ffarwelio ac mae ardal Talgarreg a chynulleidfa Bwlchyfadfa yn dlotach o'i cholli. Credwn fod ei serch at yr achos ym Mwlchyfadfa yn un dwfn a gwirioneddol. "Dychwel, o fy enaid, ith orffwysfa."

AR yr 28ain o Chwefror, bu farw Mrs. Jones, annwyl briod y Cynghorwr Evan Jones, Pen Darren, Pengam, Morgannwg, yn 57 oed. Er mai byr fu ei chystudd olaf, eto ni fu o iechyd cryf er's cryn amser cyn ei marw. Yn Nowlais y treuliodd y rhan fwyaf o'i hoes; a thra fu yno, bu'n hynod o ffyddlon a gweithgar yn y Capel Undodaidd yn White Street. Ar ei symud hi a'i phriod i Bengam, ychydig flynyddoedd yn ol, amddifadwyd hi (oherwydd pellter ffordd) o gyfle i fynychu un Capel Undodaidd; ac ymaelododd hi a'i theulu gyda'r Bedyddwyr; ond ni chollodd ei diddordeb yn yr achos Undodaidd hyd y diwedd. Gadawodd i alaru ar ei hol briod, dau o blant, un brawd a dwy chwaer, ynghyd a nifer luosog o berthynasau agos eraill. Claddwyd ei gweddillion ar y drydedd o Fawrth yng nghladdfa'r Pant, Dowlais. Gwasanaethwyd gan y Parch. Llew. Morris, gyda chynorthwy'r Parch. Ieuan Evans, Fochriw.

DYDD Mawrth, Mawrth 1, yn 27 mlwydd oed, Hannah Mary, annwyl briod ieuanc David Emrys Davies, Bronwen House, Trebanos. Nid all fod ond grudd llaith, a mynwes a chalon drom o sylweddoli diwedd tra chynnar y wraig ieuanc hon. Ychydig flynyddoedd yn ol gwelem arwyddion bywyd ac ynni, buander a hwyl, a sirioldeb yn coroni'r cyfan. Ychydig amser yn ol clywem y llais amlwg a soniarus, a'r gân felys, a mwynhaem felodi bronfraith Seion Duw. Rhyw flwyddyn neu ddwy'n ol, sylwem ar y cyfnewidiad, pan giliai'r ynni a'r bywyd, yr hwyl a'r osgo buan; pan dawelai'r swynol lais a synnai lu a'r ganig dlos,—ond arosodd y wên yn

ffyddlon i'r diwedd. Gwên yw morwyn y galon pan ballo iaith; a phan ballo gwên, yr ysbryd ehed at yr Hwn a'i rhoes. Hi a groesodd y border a llyfr ei bywyd ond megis wedi ei agor. Claddwyd y Sadwrn cyfisol yng Nghladdfa gyhoeddus Trebanos, a daeth torf fawr i'w chynhebrwng. Gwasanaethodd y Parch. D. G. Rees, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. D. Johns, Gosen, Trebanos a T. V. Evans, Clydach. Sicr y'm, yr eidduna pawb nawdd y Tad goreu i'r hwn y sydd yn unig yn yr anial, a thaened Ior y nef ei aden warcheidiol dros y tad a'r fam, y brodyr a'r chwiorydd, a'r holl gysylltiadau. Diddaned y galarwyr eu hunain yn y ffaith, nad yw ffrydiau cysuron cariad Duw byth yn sychu.

I'r ddwyfol fro ddiofid,—yr hedodd
Ar aden gynhenid;
A chael ei lle uwchlaw llid,
Yn sanctaidd aetes ienctid.

BANOS.

MAWRTH 13, yn 83 mlwydd oed, Mrs. Margaret Davies, gweddw y diweddar Dr. Lewis Davies, Llawfeddyg, Llandysul. Yn Cottage, Rhydowen y bu'r ymadawedig yn byw am flynyddoedd, hyd nes i henaint a llesgedd ei goddiweddyd, ac aeth at ei merch a'i mabynghyfraith i Derwydd, Llanfihangelararth lle y cafodd bob gofal. Gwraig dawel ac iddi barch mawr gan bawb a'i badwaenai oedd yr ymadawedig. Gwanaidd ydoedd o gyfansoddiad, ac ni welid hi yn aml tu allan ei chartref ei hun. Y dydd Iau dilynol gosodwyd ei rhan farwol ym mynwent Pantdefaid. Anghyoedd ydoedd ei hangladd. Gwasanaethwyd gan y Parchn. T. Arthur Thomas a J. T. Hughes, Ficer Llanfihangelararth.

MAWRTH 19, yn 35 mlwydd oed, Mr. Thomas Jones, Maesyrhedydd, Llanfihangelararth. Ni fu'r ymadawedig yn wael ond am ychydig, a chreodd ei symudiad disymwth ac annisgwyliadwy syndod nid bychan yn ei ardal. Gwr distaw a ffyddlon yn ei gartref ydoedd Thomas Jones, a chydymdeimlir yn fawr a'i briod a'i dri phlentyn bach sydd ar ol. Claddwyd ei ran farwol yng nghladdfa y teulu yng Nghapelybryn, Cwrtnewydd, y Parchn. T. Arthur Thomas a G. T. Morris (B.), Pencader yn gwasanaethu.

EBRILL 4, yn 64 mlwydd oed bu farw James Davies, Abercwm, Llanllwni, ac aelod o Eglwys Alltyblaca. Yr oedd wedi dihoeni ers amser bellach ond ni feddyliodd odid neb fod y diwedd mor agos. Cymeriad caredig ydoedd ac amaethwr cyfrifol yn ei ardal. Y mae hen aelwyd Abercwm yn wag iawn o'i golli a gŵyr ei ardal ei cholled. Yr oedd yn Undodwr selog yn ei broffes er fod y ffordd yn faith. Calon ddiwenwyn a siriol oedd yn curo ynddo ac yr oedd iddo air da fel cymydog parod a charedig ac fel amaethwr gonest a chyfrifol. Claddwyd y dydd Gwener dilynol gyda'i dadau ym mynwent Capelygroes. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. E. O. Jenkins, D. James a T. Oswald Williams, M.A., a phregethwyd ei bregeth goffa ar ei gais ei hun gan y Parch. T. Oswald Williams, M.A. yng Nghapelygroes a gorffenwyd y gwasanaeth ar lan y bedd gan Weinidog y lle. Gadawodd briod a mab ieuanc, dwy chwaer heb law perthynasau ereill i wylo'n hiraethus am un "a fu'n nawdd a chefn iddynt."

EBRILL 9, yn 66 mlwydd oed, ar ol cystudd byr a chaled bu farw William Evans, Cwrt ffarm, Cwrtnewydd, Llanybyther. Yr oedd o gyfansoddiad cadarn yr olwg, a thaenwyd cwmwl o dristwch dros yr ardal o symud un o'r amaethwyr mwyaf cyfrifol yn yr ardal mor sydyn. Cwympwyd y cadarn megis heb yn wybod inni. Cymeriad cadarn ydoedd a phenderfyniad yn ei fywyd. Nid oedd wamalrwydd yn ei gymeriad, ond yr oedd rhywbeth yn agored a siriol ynddo a rhyw garedigrwydd didrwst yn ei galon. Cafodd nerth ac iechyd i fagu'i deulu lluosog ond wele'r priod cariadus a'r tad gofalus mewn bedd wedi noswylio'n gynnar i'n tyb ni. Claddwyd y dydd Iau

dilynol ym mynwent Eglwys Capelybryn, lle bu yn aelod a diacon. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan y Parch. T. Oswald Williams, M.A. gyda chynorthwy caredig y Parchn. Glyn Edwards, D. M. Davies, Aberteifi a D. Evans, Cribyn. Gadawodd briod, meibion a merched a llu o berthynasau ereill i alaru am briod a thad, am gymydog a chyfaill ac am gymeriad gonest a phlaen.

D.S.—Gŵyr darllenwyr YR YMOFYNNYDD am afiechyd hir y Parch. Lewis Williams, gweinidog Alltyblaca, Capelybryn a Chapelycwm, a dyna esbonia fod ereill yn gwasanaethu yn angladdau'r Eglwysi hyn.

Y GOL.

EBRILL 18, yn 76 mlwydd oed, wedi cystudd hir a phoenus iawn, bu farw Thomas Aeron Davies, *Stonecutter*, Llanbedr. Yr oedd yn adnabyddus i gylch eang fel *stonecutter* a cherddor a gŵyr y neb a ŵyr rywbeth am ganu am ei fedr fel arweinydd corau. Collodd gyffyrddiad a'n heglwysi ni am dro hir oherwydd byw ohono ym Morgannwg ac yn ardal *Nantcwnlle* a Llangeitho lle y bu'n wasanaethgar iawn. Wedi ei ddyfod i Lanbedr daeth yn ol at ei gariad cyntaf. Hen gymeriad diddan ydoedd a'i enaid yn y gân. Calon ddiwenwyn a siriol oedd ei galon, ac ni "fachludai'r haul ar ei ddigofaint." Claddwyd ef y dydd Gwener dilynol ym Mynwent Capelygroes, a gwasanaethwyd gan y Parch. T. Oswald Williams, M.A. gyda chynorthwy y Parch. D. Evans. Gadawodd briod a phlant, eraill a fu fel plant iddo heblaw perthynasau eraill i wylo o'i symud ef. Gŵyr y cylch am dano fel arweinydd ac fel cerddor, fel un o wŷr Caradog a chenir rhai o'i donau megis "Llanio" a "Maesmynach" o'i lyfryn "Blodeuyn a Chân" yn ein heglwysi.

Nodion yr Eglwysi.

LLWYNRHYDOWEN. — Cafodd Ysgol Sul a chynulleidfa'r lle uchod ei gŵyl dê flynyddol nawn Gwener y Groglith. Gan fod yr hin yn dda a chymaint o angen hin dda i drin y tir ofnid mai ychydig ddelai ynghyd. Daeth tyrfa serch hynny a chafwyd prynhawn llawen. Rhoddwyd y wledd eleni gan Miss Thomas, Clettwr Villa a Miss Evans, Llwynmarles, a chwareu teg iddynt yr oedd yn bopeth allesid ei ddisgwyl. Y tê drosodd cafwyd cyngherdd yr Ysgol Sul yn yr hen gapel—Mr. Griffith Davies, Brynclettwr yn llywyddu a Mr. James, Ysgolfeistr Pontshaen yn arwain. Gwnaeth y plant yn dda gyda'r adrodd a'r canu, a buont hwy ac eraill yn datgan eu diolchgarwch i roddwyr y tê. Canodd Cor y Plant o dan arweiniad Miss Anne Davies, Criborfawr. Yn ystod yr hwyr gwobrwywyd y plant a rhai mewn oed am ei ffyddlondeb yn cadw yr ysgol yn ystod 1926. Yr oedd chwech wedi ei chadw'n ddifwlch a thri heb golli ond bob i un Sul. Gwobrwywyd hefyd yr oll o'r plant ag anrhegion gwych oddiar "goeden" wedi ei gwisgo yn hardd. Cafwyd dwy awr fuddiol a hapus.

HEN DY CWRDD, TRECYNON, ABERDAR.—Ar y 23ain a'r 24ain o Fawrth rhoddwyd dau berfformiad o ddrama yn Neuadd Gyhoeddus Trecynon, dan nawdd Cymdeithas Ddiwylliadol yr Hen Dy Cwrdd. Drama ydoedd dan y penawd "The Crisis" wedi ei hysgrifennu gan ein parchus weinidog y Parch. E. R. Dennis. Yr oeddem yn gwybod am allu ein gweinidog fel pregethwr yn flaenorol, ond erbyn heddyw, mae yn ein meddiant wybodaeth newydd am dano, y mae wedi dangos fod ynddo alluoedd neillduol fel dramodwr o radd uchel. Ni chymerodd lwybr arferol dramodwyr Cymru o ddwyn i fewn yr Eglwys, y gweinidog a'r diaconiaid. Cauodd y rhai hyn allan gan ddwyn i fewn gymeriadau oedd yn ymdrafod a phethau gwleidyddol. Hefyd dangosodd fedr neillduol i guddio onewllyn ei ddrama nes yn agos i'r terfyn, a bu y medruswydd hwn yn dest i lawer ddarganfod

y plot, ond pan wawriodd hyn ar y gwrandawyr mawr oedd eu canmoliaeth. Chwareuwyd hefyd Gomedi Gymreig—"Y Forwyn Newydd." Dangosai hon allu neillduol mewn cyfeiriad mwy ysgafn a diddorol. Llwyddodd Mr. Dennis yn y comedi i gadw y dorf ar binacl hapus o'r cychwyn hyd y terfyn. Doniol tuhwnt yw'r ddau hen frawd Twm a Dai, dau gymeriad Cymreig trwyadl sydd mewn penbleth am fod Billy wedi priodi Saesnes a hithau yn methu deall Cymraeg, a hwythau heb fedru deall Saesneg, ond daeth terfyn hapus i'r helbul. Perfformiwyd y ddau waith gan Barti Dramodol Trecynon, er budd yr Hen Dy Cwrdd; mae'r parti yma yn adnabyddys i gylch eang a'r Parch. E. R. Dennis yw eu cyfarwyddwr, a than ei gyfarwyddyd maent wedi ennill llawer iawn o wobrwyon. Yr oedd y neuadd y ddwy noson uchod yn llawn, nid oedd ond canmoliaeth aruchel gan bawb i'r ddrama, y comedi a'r perfformiad. Hyderwn y gwnaiff Mr. Dennis ddwyn allan rywbeth ar y llinellau hyn yn fuan eto. Sicr yw y caiff dderbyniad gwresog. Llywyddwyd nos Fercher gan D. R. Griffiths, Ysw., Pantawel, a nos Iau gan y Cynghorwr D. Tyssul Davies.

CYMANFA GANU MORGANNWG. Dydd Mawrth y Pasc, cynhaliwyd Cymanfa Gerddorol Eglwysi Undodaidd Morgannwg yn eglwys y Knoll Road Congregational Church, Castell Nedd, tan arweiniad Mr. H. H. Morgan, Trebanos. Y cyfeilydd oedd Mrs. Lewis Edwards, A.T.C.L., Cefncoed. Arweiniwyd y rhan ddefosiynol yng nghwrdd y bore gan y Parch. E. T. Evans, Bridgend, yr hwn y mae yn ddrwg odiaeth gennym glywed sydd yn ymadael a Chymru, am ei fod wedi derbyn galwad i weinidogaethu mewn eglwys Undodaidd yng Nghanada. Llywyddwyd ar gyfarfod y bore gan Mr. Lewis Edwards, y Cefn, yr hwn fel athro mewn ysgol elfennol sydd yn cymeryd diddordeb dwfn ym mywyd y plant. Anogodd y gwyddfodolion yn ei anerchiad am ofalu am fuddioldeb y rhai ifeinc er mwyn dyfodol ein heglwysi. Agorwyd cyfarfod y prynhawn gan y Parch. R. J. Hall, M.A., Abertawe, yr hwn hefyd yn ystod y cyfarfod a roddodd anerchiad brwd ar "Yr angen am gyhoeddi y genadwri sydd gennym fel eglwysi Rhyddfrydig." Llywyddwyd yn y cyfarfod hwn gan Mr. Daniel W. John, Glyncoch, Clydach, yr hwn mewn ychydig frawddegau byr a chryno a alwodd ar yr arweinydd at ei waith. Cafwyd anerchiad yn y prynhawn gan Mr. John Hopkin, Trebanos, ar "Y fantais sydd yn deilliaw oddiwrth y cymanfaoedd canu i ganiadaeth y cysegr." Dechreuwyd cyfarfod yr hwyr gan y Parch. D. G. Rees, Gellionnen, ac yn absenoldeb y cadeirydd disgwyliedig, cymerodd y gadair. Yng nghyfarfod yr hwyr cafwyd hefyd adroddiad gan Mr. W. R. Evans, Aberdar, a chân gan Mr. Richard Lewis, Trebanos. Trodd y Gymanfa eleni eto allan yn llwyddiant mawr. Dichon fod y dyrfa o wrandawyr yn lluosocach chwarter canrif yn ol, ond ni fu y canu erioed yn well yn fy marn i. Y Parch. E. R. Dennis, Aberdar oedd yr ysgrifennydd, a gwnaeth ei waith yn rhagorol ac i foddlonrwydd pawb. Mr. Taliesin Griffiths, Aberdar oedd y trysorydd, ac er nad oedd y casgliadau cymaint ag oeddynt dair mlynedd yn ol, ond eto gan fod "Tal" yn dweyd ei fod yn fodlon ar y cyfanswm, nid gwiw i neb arall grintach. Talwyd diolchgarwch cynnes y gymanfa i weinidog (Y Parch. T. Mardy Rees) a swyddogion ac eglwys y Knoll Road am fenthyg y capel at wasanaeth y gymanfa. Er fod yr awel yn finiog cafwyd hin ddymunol ar y cyfan. Heblaw y tair eglwys oedd yn swyddogol yn cynnal yr wyl, sef Hen Dy Cwrdd, Aberdar, a Hen Dy Cwrdd Cefncoed, a Gellionnen a'r Graig Trebanos, gwelsom gyfeillion o Highland Place, Aberdar, ac o Glanrhondda, Treorci. Hyderwn yr erys y dylanwadau hwylus, a gwresog ar feddyliau'r bobl oeddynt yno am dymor hir.—D.G.R.

J. D. Lewis, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.

JUST PUBLISHED.

Crown 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers, 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. STEPHENSON, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original M.S. of the hymn. "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, W.C. 2

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS; etc., Rose Trees, Tomato Plants, Begonias, Geraniums, Lobelias, Palms, Ferns, etc.

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875)

Importer of Dutch Bulbs, Seedsman and Florist, CARMARTHEN.

Telegrams—COYSH, Carmarthen.

IT WILL PAY YOU TO SEE OUR HUGE SELECTION OF WINTER GOODS BEFORE YOU BUY. . . .

E. LLOYD JONES

Bradford House, Llandyssul.



A Complete Banking Service

The Midland Bank offers exceptional facilities for the transaction of banking business of every description through 1900 branches covering all important agricultural, commercial, industrial and residential districts in England and Wales.

Deposit accounts may be opened in amounts of £1 and upwards, and interest is allowed at current rates.

The Branch at 9 Lincoln Street, Llandyssul, is open every week-day, from 10 a.m. to 12 noon on Saturday and from 10 a.m. to 3 p.m. on other days.

MIDLAND BANK

LIMITED

HEAD OFFICE: 5 THREADNEEDLE ST., LONDON, E.C. 2

Affiliations: Belfast Banking Co. Ltd., Northern Ireland; The Clydesdale Bank Ltd., and North of Scotland Bank Ltd., Scotland; Midland Bank Executor and Trustee Co. Ltd.